



**CYNGOR TREF
LLANFAIRFECHAN
TOWN COUNCIL**



Neuadd Gymunedol Tref Llanfairfechan Ffordd y Pentref Llanfairfechan LL330AB

Maer: Cyng Chris Jones

Dirprwy Faer: Cyng Laura Fielding

COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR TREF NOS FERCHER HYDREF Y 5^{ed} OCTOBER 2022

Presennol: Y Maer Chris Jones; Dirprwy Faer Gyng Laura Fielding; Cyng Penny Andow; Cyng Leena Farhat; Cyng Andrew Hinchliff; Cyng Gareth Jones; Cyng Nia Jones; Cyng Alun Rhys Jones; Cyng Elgan Owen; Cyng Christine Roberts; Cyng Preben Vangberg. Roedd Clerc y Dref, Jayne Neal yn bresennol a bu iddi baratoi'r cofnodion.

1. Croesawu pawb i'r cyfarfod

2. Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb (DLIL 1972 Atodlen 12)

Cyng Pat Griffiths; Cyng Claire Hughes

3. Derbyn datganiadau o ddiddordeb— (Datgelu diddordeb personol neu un sy'n peri rhagfarn)

Cyng Leena Farhat	diddordeb personol	eitem 5	dim diddordeb sy'n peri rhagfarn
Cyng Nia Jones	diddordeb personol	eitem 11.11	dim diddordeb sy'n peri rhagfarn

4. Derbyn sylwadau ac ymholiadau gan y cyhoedd.

Dau aelod o'r Cyhoedd yn bresennol ar gyfer Eitem 5 Llyfrgelloedd Cymunedol

Presennol: *Pennaeth Diwylliant a Gwybodaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy*

5. Derbyn y diweddaraf am Lyfrgelloedd Cymunedol Cyngor Conwy:

Bu i Helen Goddard gyflwyno'i hun fel Pennaeth Adran Diwylliant a Gwybodaeth newydd CBS Conwy a chyflwyno'r Cyng Aaron Wynne fel Aelod Portffolio Cabinet CBS Conwy dros Ddiwylliant a Hamdden. Roedd y Cyngor Tref wedi derbyn adroddiad drafft Adolygiad Llyfrgelloedd Cymunedol Sir Gonwy o'r model Cyflwyno 2022 dros e-bost eisoes ac fe gafodd ei nodi wedi'i ddarllen. Mae'r adroddiad yn ymdrin â'r model cyflwyno llyfrgell gymunedol sydd wedi bod ar waith yn llyfrgelloedd cymunedol Conwy ers 2014. Mae llyfrgell Llanfairfechan yn un o bum llyfrgell gymunedol yn Sir Gonwy ac fe gaiff bob un ohonyn nhw eu cynnal ar y cyd rhwng Adran Diwylliant a Gwybodaeth Conwy a grwpiau Ymddiriedolwyr cyfansoddiadol yn yr ardal. Yn sgil yr adolygiad, fe ddaeth i'r amlwg bod angen llunio Cytundebau Lefel Gwasanaeth (CLG) newydd er mwyn bodloni gofynion newydd sydd wedi codi yn ystod y cyfnod gweithredu. Dyma'r prif ofynion:

1. Angen i gynyddu cyfathrebu rhwng y partneriaethau
2. Mae angen cymorth ar grwpiau ymddiriedolwyr i ddatblygu gwaith gwirfoddol a chymunedol yn y llyfrgelloedd
3. Mae angen adolygu'r Cytundebau Lefel Gwasanaeth a llunio rhai newydd er mwyn sicrhau eu bod yn addas i'w diben

Amlygodd trafodaethau yn ystod y cyfnod ymgynghori, er bod nifer yr ymwelwyr a benthyciadau yn y llyfrgelloedd wedi bod yn dda, cafodd y datblygiad ei effeithio yn sgil colli Swyddog Llyfrgell Gymunedol yn 2019 a dyfodiad y pandemig Covid 19 yn 2020. Soniwyd bod hon yn adeg ddelfrydol i ailosod y gwasanaeth a mynd rhagddi i fanteisio ar wirfoddolwyr ar y cyd â llyfrgellwyr proffesiynol a mentrau ar y cyd i gynnig gwasanaeth hollgynhwysol i drigolion. Yna bu cyfle i bobl ofyn cwestiynau.

Cwestiwn 1 Mae'r adroddiad yn dangos bod Llyfrgell Llanfairfechan yn perfformio'n dda ac mae'n enghraifft wych yn dilyn y pandemig oherwydd bu i'r niferoedd gynyddu'n gyflym unwaith i'r gwasanaeth cyflawn ail-agor. O ystyried yr hinsawdd sydd ohoni, sut mae modd sicrhau y bydd y gwasanaeth llyfrgell yn parhau?

Ymateb gan yr Aelod Cabinet: Does dim modd sicrhau hyn. Mae'r diffyg yng nghyllideb CBS Conwy ar gyfer y flwyddyn sydd ar ddod yn 18m ac yn dal i gynyddu. Mae'r holl wasanaethau dan fygythiad a bydd angen mynd ati i wneud arbedion. Mae nifer o wasanaethau, sydd werth 8m, ynghlwm â'r portffolio a byddwn yn dwyn i ystyriaeth toriadau ym mhob maes lle'n bosibl – mae'n bosibl y bydd rhai gwasanaethau'n dod i ben. Mae'n sefyllfa annymunol dros ben a bydd y Cyngor Sir yn mynd ar ofyn y Cyngor Tref i helpu gyda'r baich. Soniwyd bod 2 lyfrgell gymunedol wedi'u hariannu'n gyfan gwbl gan eu Cyngor Tref.

Cwestiwn 2 Drwy ymgynghori â'r gymuned, y farn gyffredinol am Lanfairfechan ydy ein bod yn manteisio i'r eithaf ar ein hadnoddau ac mae'r gwasanaethau yma'n boblogaidd iawn. Pam ddylen ni orfod talu ar lefel leol am wasanaeth awdurdod lleol?

Mae'r gyllideb yn ymddangos yn ddifrifol – mae 75% o gyllideb Conwy yn mynd tuag at wasanaethau gofal rheng flaen ac mae'r rhain dan fygythiad hefyd hyd yn oed. Mae hwn yn gyfnod digynsail ac fe gaiff y gwasanaethau eu heffeithio.

Cwestiwn 3 Pa flaenoriaethau cyllid y mae'r Adran Diwylliant a Gwybodaeth yn bwriadu eu rhoi ar waith?

Wedi imi weithio mewn cymunedau sydd wedi wynebu colli gwasanaethau, gallwn gydnabod bod hyn yn broses anodd a rhwystredig. Mae cyd-destun llyfrgelloedd cymunedol eisoes yn golygu eu bod yn wynebu caledi ariannol. Bu i doriadau blaenorol arwain at ddatblygu'r grwpiau partneriaeth i gynnal gwasanaeth yn yr ardaloedd anghysbell. Mae canllawiau statudol gan Lywodraeth Cymru yn datgan dylai bod Llyfrgell o fewn 3 milltir (neu daith 15munud ar gludiant cyhoeddus). Mae mwy o wybodaeth yn nogfen Llywodraeth Cymru [Llyfrgelloedd Cysylltiedig ac Uchelgeisiol](#). Mae CBS Conwy yn rhagori ar y targed hwn ledled y sir ar hyn o bryd. Fe wyddom fod y sefyllfa ariannol yn arw ac os ydy'r trigolion yn dymuno cadw gwasanaeth yn lleol, mae'n rhaid meithrin partneriaethau ymarferol i'w gynnal. Mae'n rhaid i Llyfrgelloedd esblygu i fod yn hybiau cymunedol gyda gwirfoddolwyr gweithgar sy'n cefnogi ystod o wybodaeth a gweithgareddau. Bydd cyllid cyfatebol gan Gyngorau Tref yn fodd i grwpiau fanteisio ar gyllid allanol a allai sicrhau dyfodol ar gyfer Llyfrgell Gymunedol Llanfairfechan.

Cwestiwn 4 (Huw Lloyd Jones Trysorydd Cyfeillion Llyfrgell Llanfairfechan) Mae'r Cyngor Tref wedi cynnig cefnogaeth ariannol i'r grŵp gyda grant blynyddol hyd at 2019 tuag at gostau adeiladu. Fe ddaeth hyn i ben oherwydd bod y grŵp wedi casglu arian wrth gefn ac nid oedd angen y grant yn ystod y pandemig yn sgil grantiau Covid 19 y llywodraeth. Nid oes diffyg cydweithio ac mae'r Cyngor Tref yn gefnogol.

Cwestiwn 5 Bu'n anodd dros ben gweithredu'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth blaenorol ac mae'n rhaid sicrhau bod unrhyw gytundeb newydd yn gyfartal. Beth fyddai'r system ar gyfer talu staff a'r gwasanaeth llyfrgell – a fydd disgwyl i'r Cyngor Tref dalu am hyn i gyd?

Mae'r Gwasanaeth Llyfrgell Gymunedol wedi'i gwtogi'n ddifrifol dros y blynyddoedd felly'r unig gyfraniad y bydd CBS Conwy yn gofyn amdano ydy ar gyfer staffio – does yna ddim costau eraill oherwydd nad oedd cyllideb am unrhyw beth arall dros y blynyddoedd. Mae'r holl gostau adeiladu ar wahân a'r grŵp Ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am y costau hynny. Mae'r llyfrgell ar agor am 12 awr ac mae asesiad o'r gost gyfredol yn £3000. Fodd bynnag, fe gaiff hwn ei adolygu o ystyried cytundebau cyflogau diweddar ac fe gaiff ffigwr ei gyflwyno i'r Cyngor Tref cyn eu cyfarfod adolygu'r archebiant nesaf ym mis Tachwedd.

Cwestiwn 6 Mae cydweithio'n hanfodol ar gyfer arfer gweithio da. Gallai gwirfoddolwyr ar y cyd â llyfrgellydd o Gonwy sy'n gweithio oriau gostyngol a'r grŵp Ymddiriedolwyr arwain gweithgareddau yn yr hwb.

Cwestiwn 7 Pe bai dim oriau ar gael i staff y llyfrgell, a fyddai'r llyfrgell yn cau o ganlyniad?

Mae sawl enghraifft o lyfrgelloedd cymunedol annibynnol yn y sir, ond mae'r rhain yn dra gwahanol i wasanaethau statudol ac fe all fod diffyg cefndir proffesiynol. Byddai colli cyfleoedd rhwydweithio yn effeithio ar y gwasanaeth a byddai newidiadau cyflenwad llyfrau'n gyfyngedig. Yn y pen draw, mae'r penderfyniad ynghylch gwasanaeth yn y dyfodol ar lefel leol. Hoffai Gwasanaeth Llyfrgell Conwy barhau i weithio gyda'r gymuned yn Llanfairfechan.

Cwestiwn 8 Mae'r adroddiad yn crybwyll hyfforddi gwirfoddolwyr ac ymddiriedolwyr. Sut mae modd cyflawni hyn?

Dydy'r manylion heb eu penderfynu hyd yn hyn ond roedd hyfforddiant ar waith yn flaenorol pan roedd y Swyddog Llyfrgell Gymunedol yn ei swydd. Bu'r blynyddoedd diwethaf yn her fawr yn dilyn colli'r swydd hon a'r pandemig Covid-19. Bu toriad o 25% o ran staffio yn y gwasanaeth Diwylliant a Gwybodaeth. Fodd bynnag, gyda Chytundebau Lefel Gwasanaeth wedi'u hadnewyddu a gwell rhwydweithio mewn partneriaeth, gallwn ailystyried hyfforddiant. At hyn, soniwyd bod CGGC yn cynnig hyfforddiant proffesiynol dros ben i ymddiriedolwyr.

Cwestiwn 9 Mae casglu data yn hollbwysig er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn diwallu'r anghenion. Pa ddata sydd ar gael ynghylch llyfrau gaiff eu benthycu? Ydy'r gwasanaeth yn manteisio ar wybodaeth benthyciadau i bennu demograffig y benthycwyr?

Mae systemau llyfrgell cyfredol yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd gan nad ydyn nhw cystal ag y gallan nhw fod. Fodd bynnag, caiff data ei ddefnyddio i bennu'r cyflenwad llyfrau, ond mae angen rhoi gwelliannau ar waith yn y maes gwaith hwn, yn enwedig o ran y cynnig digidol.

Gyda'r Cytundebau Lefel Gwasanaeth newydd a phartneriaeth sy'n fwy cyfartal, y gobaith ydy y bydd modd cynnal a gwella'r gwasanaeth.

Fe estynnwyd diolch i Helen ac Aaron am fod yn bresennol ac am gyflwyno'r wybodaeth.

Fe estynnwyd diolch i Huw Lloyd Jones a'r pwyllgor am eu gwaith i gynnal y gwasanaeth hyd yma.

Soniwyd bod angen cyflwyno ffigwr bendant ar gyfer cefnogi'r llyfrgell cyn cyfarfod archebiant y Cyngor Tref ar Dachwedd yr 16eg.

Penderfynwyd cymeradwyo a nodi

6. Derbyn a chymeradwyo cofnodion Medi'r 7^{fed} 2022 a'r rhestr weithredu (DLIL1972 Atodlen 12)

Fe ddosbarthwyd y rhain dros e-bost ac fe gafodd ei nodi wedi'i ddarllen.

Dim materion yn codi

Rhestr Weithredu Cyngor Tref Llanfairfechan		
Dyddiad: Hydref y 5ed 2022		
Eitem:	Dyddiad:	Datblygiad
Arwyddlun a bathodynau meiri'r gorffennol	Diweddariad	I'w drafod
Maes parcio Nant y Pandy	03/10/2022	gyda'r adran gynllunio
Maes parcio'r promenâd a chynllun amddiffyn rhag llifogydd	04/10/2022	E-bost wedi'i anfon
Prosiect meinciau	Archwilio 11/10/22	ar agenda'r cyfarfod nesaf
Prosiect Gwyllo Cyflymder	Diweddariad	I'w drafod
Senotaff	Diweddariad	I'w drafod
Giatiau Gerddi Victoria	Agenda	Eitem 7.1
Prosiect Glan y Môr a Morfa Madryn	Agenda	Eitem 7.4
MUGA West Shore	Agenda	Eitem 7.2
Cwrt petanque	Diweddariad	I'w drafod
Diffibriliwr	Wedi'i gwblhau	Angen hysbysiad ar Facebook

Pwll padlo	Wedi cau erbyn hyn	Angen trefnu cyfarfod
Archwiliad	Wedi'i gwblhau	Disgwyl ymateb, heb dderbyn unrhyw ymholiadau
TG GDPR a'r Swyddfa	Parhaus	Cyfrif CT wedi cau – biliau cyfrif CH wedi'u gohirio am y tro
Hyfforddiant i'r Clerc a'r staff	Diweddariad	Cychwyn yn Ionawr
Pwll cychod	04/10/2022	E-bost wedi'i anfon
Milwr Mud	07/09/2022	Clerc i fesur ac archebu
Cynllun Cymunedol Kickstarter	Ar yr agenda	Eitem 8.2
Marchnadoedd Bwyd a Chrefftwy'r	Ar yr agenda	Eitem 8.1
Digwyddiadau Calan Gaeaf	Ar yr agenda	Eitem 8.1
Digwyddiad Tân Gwylt	Ar yr agenda	Eitem 8.1
Digwyddiad Coffa	Ar yr agenda	Eitem 8.1
Gŵyl y Gaeaf a Goleuadau Nadolig	Ar yr agenda	Eitem 8.1

Eitem 1 Arwyddlun Gofynnwyd i'r Clerc am fathodynau Meiri'r Gorffennol ac fe dderbyniwyd dyfynbrisiau gan Thomas Fattorini Ltd. Mae cynllun wedi'i lunio gyda phris ynghlwm: Cyfanswm - 10 £94.32 yr un net Cyfanswm 5 - £137.85 yr un net

Cytunwyd nad oedd hyn yn dderbyniol yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni. Clerc i archwilio opsiynau rhatach na fyddai'n arwyddluniau cyflawn, ond fyddai'n dal yn nodi'r rôl flaenorol. I'w ychwanegu at yr agenda nesaf.

Eitem 5 Gwyllo Cyflymder Mae'r prosiect hwn wedi'i ohirio am yr ail dro gan nad oes yna ddigon o ddiddordeb gan wirfoddolwyr. Does dim modd mynd rhagddi gyda hyn heb gefnogaeth gwirfoddolwyr.

Eitem 6 Senotaff Gofynnwyd i'r Clerc am fesur y wal a threfnu prynu plac wal Milwr Mud. Soniwyd bod pryderon pellach ynghylch hyn. Mae'r wal yn hyll iawn a byddai'r placiau yn tynnu sylw at hyn. Awgrymwyd y byddai prosiect murlun pabi gyda phobl ifanc yn syniad gwell. Clerc i archwilio hyn ac adrodd yn ôl.

Eitem 10 Cwrt Petanque Mae Gefeillio Trefi wedi mynd ati i'w adfer ac fe fyddan nhw'n cyflwyno cais grant i gwblhau'r gwaith. Y bwriad ydy ei gwblhau yn barod ar gyfer yr ymwelwyr o Pleumeleuc ym mis Mai 2023 a chynnal twrnamaint. Mae'n bosibl y bydd grwpiau Cyngor Tref Penmaenmawr, Cyngor Tref Llanfairfechan a Gefeillio Trefi ynghlwm â hyn.

Eitem 15 Hyfforddiant i'r Clerc Bydd y Clerc yn cychwyn yr hyfforddiant ym mis Ionawr 2023 ar y cyd â Chlerc Tref Conwy.

Eitem newydd ar gyfer y rhestr weithredu Prosiect Baner – Mae'r prosiect hwn wedi'i gytuno eisoes mewn cyfarfod Cyngor Tref. Ymgynghorwyd â siopau a chafwyd ymateb cadarnhaol. Mae dyfynbrisiau wedi'u derbyn ac maen nhw o fewn y paramedrau. Soniwyd am bryder ynghylch a ddylid cyflawni hyn yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni, ond mae gobaith y bydd hwn yn brosiect cymharol rad a fydd yn bywiogi man siopa Ffordd yr Orsaf a Ffordd y Pentref. Clerc i fynd rhagddi gyda'r prosiect ac adrodd yn ôl.

Cynigwyd gan y Cyng N Jones Eiliwyd gan y Cyng L Farhat **Penderfynwyd**
cymeradwyo pob un a nodi

7. Derbyn gwybodaeth a chymeradwyo cynlluniau ar gyfer prosiectau amgylcheddol:

1. Problemau diogelwch Gerddi Victoria

Bu i'r Cyng Leena Farhat adrodd yn ôl o gyfarfod gyda'r Swyddog Chwarae ar ran CBS Conwy. Mae'r trigolion yn bryderus nad ydy'r man chwarae yng Ngerddi Victoria yn ddiogel oherwydd y wal isel a'r giatiau sy'n arwain at y ffordd. Awgrymwyd y dylid gosod ffensys a giatiau yn yr ardal. Mae'r dyfynbrisiau canlynol wedi'u cyflwyno:

- Ffensys gyda phennau uchaf siâp bwa a giatiau diogelwch ar gyfer mannau chwarae - £7,000

- Adnewyddu'r hen honglath = £2000
- Cyflenwi a gosod 3 x honglath newydd = £2000-£3000

Bu trafodaeth lawn ac fe ddywedwyd wrth y Clerc am weithredu ar y gwaith trwsio a gosod yr honglathau a thrwsio'r estyll ar fan eistedd y pafiliwn. Clerc i ofyn am eglurhad pellach am yr angen am ffensys. Awgrymwyd bod y ffensys yn ddrud dros ben ac mae'n bosibl y byddai contractwyr lleol yn fodlon cwblhau'r gwaith am bris rhatach. Mae gan y Cyngor Tref gyllid wrth gefn sydd wedi'i neilltuo ar gyfer gwaith i wella adnoddau chwarae yn Llanfairfechan ac fe gaiff ei ddefnyddio i dalu am y gwaith.

2. Atgyweiriadau i adfer y cae MUGA

Mae asesiad risg wedi'i gynnal ar y MUGA sydd agosaf at y ffordd ac mae wedi'i gau. Mae twll enfawr yn y tarmac a bydd yn gwaethygu os bydd pobl yn parhau i'w ddefnyddio. Mae hefyd yn beryglus oherwydd fe allai rhywun niweidio'u hunain wrth chwarae yn y MUGA. Gellir trwsio'r twll ac yna ail-beintio'r arwynebau gyda llinellau cwrw newydd arnyn nhw. Mae gweddill y tarmac mewn cyflwr rhesymol felly byddai ei beintio'n ddigonol. Mae hefyd angen trwsio ffens y MUGA y tu ôl i un o'r goliau. Clerc i weithredu ar y gwaith trwsio a chyflwyno dyfynbrisiau yn y cyfarfod nesaf.

3. Meinciau Cyhoeddus Llanfairfechan

Bydd yr archwiliad am fainc y pentref uchaf yn y Neuadd am 10yb ar ddydd Iau, Hydref yr 11^{eg}. Derbyniwyd dyfynbris am feinciau metel yn ôl y gofyn. Roedd 6 mainc debyg i fainc senotaff gyda tharian blaen - £680.00 yr un. Bydd y gost i osod y meinciau'n £40 yr un ar yr amod bod sylfaen cadarn eisoes, fel arall bydd angen prisiau unigol i osod y meinciau yn ôl cyflwr y tir. Mae'r rhain ychydig yn ddrytach na meinciau confensiynol ond maen nhw'n para'n hir ac yn wydn dros ben ar gyfer meinciau'r briffordd.

4. Prosiectau Glan y Môr Elias a Morfa Madryn

Mae tri opsiwn wedi'u datblygu erbyn hyn ar gyfer y cais terfynol am grant Cynllun Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant (EnRaw):

Cyfanswm y cyllid cyfatebol gwreiddiol wedi'i gytuno gan y Cyngor Tref £2,701

Cost y prosiect heb y gwaith gwella Cynefin £9,542.96 + taw, cyllid cyfatebol gofynnol £1,374 (cost wreiddiol y prosiect oedd 18k/cyllid cyfatebol £2701. Cafodd cost y prosiect ei leihau i £9,542.96 yn sgil dehongliad amgen ynglŷn â'r meinciau)

Cost prosiect gydag opsiwn gwaith gwella cynefin ychwanegol A £23,937.96 + taw, cyllid cyfatebol gofynnol £3,447

Cost prosiect gydag opsiwn gwaith gwella cynefin ychwanegol B £14,427.96 + taw, cyllid cyfatebol gofynnol £2,077

Cytunwyd y byddai'r Cyngor Tref yn cynnig £3447 o gyllid cyfatebol gan fod hwn yn brosiect mor gadarnhaol.

Estynnwyd diolch ffurfiol i Haf Jones a Lesley Lawson o CBS Conwy am eu cymorth ac i'r Cyng Alun Rhys Jones am arwain y prosiect.

Penderfynwyd cymeradwyo a nodi

8. Derbyn gwybodaeth am brosiectau cymunedol:

1. Marchnadoedd Crefftau a digwyddiadau cymunedol – Hydref Tachwedd Rhagfyr 2022

Marchnad Bwyd a Chrefftau Calan Gaeaf Llanfairfechan a chystadleuaeth Pwmpenni dydd Sul, Hydref y 23ain

Sioe Tân Gwylt Llanfairfechan dydd Llun, Tachwedd y 7^{fed}

Sul y Cofio Llanfairfechan dydd Sul, Tachwedd y 13^{eg} 10:30yb

Marchnad Bwyd a Chrefftau Llanfairfechan dydd Sul, Tachwedd yr 20^{fed} 12yp

Lansiad Ffenestri Siopau Nadolig, Rhagfyr y 1^{af}

Ffair Nadolig Llanfairfechan dydd Sul, Rhagfyr yr 11^{eg} 12yp

2. Partneriaeth Cynllunio Cymunedol

Bydd dau ymgynghoriad co-op, roedd y cyntaf yn gymharol lwyddiannus ond dywedodd rhai o'r bobl bod gormod o wybodaeth ac roedd yn cymryd gormod o amser. Roedd yr ymateb i'r gystadleuaeth celf yn gadarnhaol. Mae angen rhannu gwybodaeth yr arolwg digidol ar daflen yn y sesiwn nesaf. Mae'r cydweithio'n datblygu ac mae'r Cynllun Kickstarter yn edrych yn addawol ar gyfer y Farchnad Nadolig ar Ragfyr yr 11^{eg}.

Penderfynwyd cymeradwyo a nodi

9. Derbyn penderfyniad i ymrwymo i addewid gwareiddiad a pharch Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol

Roedd hyn wedi'i ddosbarthu'n flaenorol ac fe gytunwyd arno. Soniwyd mai ni ydy un o'r ychydig Gynghorau Tref yng Ngogledd Cymru i ymrwymo i'r addewid hwn.

Cynigwyd gan y Cyng A Hinchliffe Eiliwyd gan y Cyng C Roberts

Penderfynwyd

cymeradwyo a nodi

10. Derbyn a chymeradwyo Adroddiadau Ariannol Hydref 2022

Roedd wedi'i ddsbarthu'n flaenorol ac fe gafodd ei nodi wedi'i ddarllen. Pawb yn cymeradwyo.

Cynigwyd gan y Cyng N Jones Eiliwyd gan y Cyng L Farhat

Penderfynwyd

cymeradwyo a nodi

11. Derbyn a chymeradwyo taliadau presennol ar gyfer Hydref 2022

I'w talu
1. Cyflogau Staff a thaliadau Pensiwn ar gyfer Hydref £4700
2. Cyfrif Busnes Amazon - Sêr Mawr ar gyfer digwyddiad cymunedol £12.99
3. REIM Trwydded TENS Marchnad Hydref Kirsty Merrell Daily £21.00
4. Cyfrif Busnes Amazon – cyfrifiadur ar gyfer Clerc y Dref £836.77
5. Cyfrif Busnes Amazon – ffôn symudol ar gyfer Swyddog Prosiect £229.00
6. Cyfrif Busnes Amazon – yswiriant cyfrifiadur £80.29
7. Cyfrif Busnes Amazon – cas amddiffyn ffôn symudol £9.99
9 Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy Sgipiau Cymunedol £1,152.00
10 Paul Davis-Haswell Gwaith ar lochesau (cyllid rhannol Dŵr Anafon) £1894
11 Taliad cymorth i'r Cynghorwyr Tref sy'n Ofalwyr Mehefin 2022, Gorffennaf 2022, Medi 2022 £90.25
12. Cyfraniad ôl-ddyddiedig Pwll Padlo Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy £1883.25

Cymeradwywyd pob un

Cynigwyd gan y Cyng A Hinchliffe Eiliwyd gan y Cyng G Jones

Penderfynwyd

cymeradwyo a nodi

12. Trafod materion cynllunio

1. 0/49986 Ty'n Coed The Close Llanfairfechan LL33 0AD

Mae hwn yn fater yn ymwneud â choed, dilynwch gyngor swyddog coed CBS Conwy os gwelwch yn dda.

Penderfynwyd cymeradwyo a nodi

13. Derbyn gohebiaeth

Ni dderbyniwyd unrhyw ohebiaeth

Penderfynwyd cymeradwyo a nodi

14. Derbyn adroddiadau o wahanol gyfarfodydd

Bu i'r Cyng Laura Fielding adrodd yn ôl ar gyfarfod gyda Rheolwyr Busnes y feddygfa

Trafodwyd y newidiadau yn y feddygfa a bu'r broses yn heriol dros ben i bawb ynghlwm. Fodd bynnag, fe awgrymwyd nad oedd unrhyw dystiolaeth bod cleifion yn methu â manteisio ar apwyntiadau yn ystod y cyfnod hwnnw. Yn ystod y cyfnod o newid, roedd y staff yn dod i arfer gyda system glerigol newydd gan hefyd geisio dygymod gyda nifer sylweddol o staff yn sâl. Bydd y system mynediad newydd ar-lein yn ffurf syml gydag un tudalen i geisio am apwyntiad ac fe ddylai hyn helpu gyda'r sefyllfa. Gallai'r rheiny sy'n methu â cheisio am apwyntiad ar-lein barhau i ffonio'r feddygfa. Fel bu i'r feddygfa awgrymu'n flaenorol, mae'n bwysig sicrhau caiff y disgwyliadau eu rheoli'n effeithiol. O gymharu gyda meddygfeydd eraill, soniwyd fod Plas Menai yn dal yn llwyddo o ran sicrhau mynediad i driniaethau. Fodd bynnag, fe soniodd y Cynghorwyr bod angen sicrhau cyfathrebu mwy effeithiol a bu iddyn nhw gynnig standin mewn marchnad creffttau yn y dyfodol i gleifion allu trafod eu pryderon yn uniongyrchol gyda nhw. Cytunwyd bod angen cysoni'r wybodaeth yn briodol ar y we er mwyn cyflwyno neges eglur. Mae datganiad Facebook ynghylch y newidiadau wedi'i anfon gan y feddygfa erbyn hyn. Soniwyd caiff yr holl frechiadau atgyfnerthu eu cynnig yn Llandudno. Mae rhai o drigolion Llys y Coed wedi penderfynu peidio â manteisio ar y brechiad gan y byddai'n rhy bell iddyn nhw deithio. Clerc i e-bostio ymholiad at Plas Menai.

Bu i'r Maer Chris Jones adrodd yn ôl ar gyfarfod Pwyllgor Neuadd y Dref Gymunedol Llanfairfechan

Mae'r neuadd yn brysur dros ben ar hyn o bryd. Mae'r prif bryder ynghylch y cynnydd mewn costau tanwydd. Mae'r neuadd ar gytundeb tymor sefydlog nes Tachwedd yr 31^{ain} ac mae cytundeb newydd wedi'i drefnu drwy Energy Buzz. Mae disgwyl i gost y tanwydd gynyddu ar Ragfyr y 1^{af}, ond mae disgwyl y bydd y grantiau gan y llywodraeth yn gwneud iawn am beth o'r cynnydd hwn. Ym mis Ebrill 2023, bydd y cytundeb yn cynyddu i £20,000 am nwy a thrydan o gymharu â chyfanswm y gost bresennol sydd ychydig dros £5000. Mae hyn yn anghynnaladwy a bydd yn rhaid i'r neuadd gynyddu eu costau a newid eu system wresogi er mwyn gallu goroesi. Mae'r pwyllgor wrthi'n meddwl am atebion a byddan nhw'n adrodd yn ôl. Bu trafodaeth ynghylch agor fel Canolfan Clyd ac mae cais grant drafft wedi'i baratoi i'r pwyllgor ei ddwyn i ystyriaeth. Mae'r cais yn ymwneud â hwylusydd i gynnal y prosiect a chydweithio gydag asiantaethau cymorth. Fodd bynnag, soniodd Cynghorydd Sir mai diben canolfannau clyd ydy cynnig man tebyg i lyfrgell a diodydd poeth i'r rheiny sy'n methu â gwresogi eu cartrefi. Mae'r llyfrgellwyr eisoes wedi cytuno i gynnal y sesiynau hyn felly mae'n bosibl na fydd ei angen yn y gymuned ehangach.

Bu i'r Cyng Leena adrodd yn ôl ar gyfarfod gyda Thrafnidiaeth Cymru ynghylch y Cynllun Mabwysiadu Gorsaf

Gallai grŵp o wirfoddolwyr o'r gymuned fabwysiadu'r orsaf drenau a bod yn rhan o rwydwaith cynyddol o unigolion sy'n datblygu gorsafoedd yn fannau cymunedol o dan ofal. Bydd Network Rail yn cefnogi'r prosiectau ac yn ariannu blychau planhigion a blychau byd natur. Bu trafodaeth am furluniau yn y llochesau a gellir ceisio am gyllid ar gyfer y rhain. Gellir hefyd datblygu teithiau cerdded partneriaeth Rheilffyrdd Cymunedol.

Bu i'r Cyng Elgan Owen adrodd yn ôl ar gyfarfod gyda grwpiau cymunedol

- Mae Pwyllgor Neuadd Pen Dalar yn y broses o ffurfio ac wedi derbyn hyfforddiant llywodraethu ganddo yn ei rôl gyda CGGC
- Mae cyngor ariannu wedi'i gynnig i Glwb Pêl Droed Llanfairfechan hefyd

Bu i'r Cyng Christine Roberts adrodd yn ôl am y camau dilynol o'r cyfarfod am bryderon diogelwch yn y pwll padlo

Mae paent y pwll padlo wedi'i wirio ac mae'n iawn, mae'r paent o ansawdd gorau sydd ar gael ac mae'n un gwrthlithro. Ymddengys mai'r pridd ger y corneli sy'n gyfrifol am y broblem llithro. Mae rhif swydd wedi'i gaffael a bydd y gwaith yn cychwyn yn ystod y tymor lle bydd y pwll ar gau.

Penderfynwyd cymeradwyo a nodi

15. Derbyn pryderon a chanmoliaethau brys

1. Mae clwb pêl-droed Llanfairfechan wedi gofyn am arwydd ger y groesffordd. Mae'n debyg fod modd ychwanegu pwynt at y mynegbost sydd yno eisoes.
2. Soniwyd nad ydy'r blwch trydan yn y clwb pêl-droed heb ei drwsio eto oherwydd problem gyda chaniatâd.
3. Mae disgwyl y caiff cynllun busnes ar gyfer gwaith ar faes parcio'r promenâd ei gyflwyno eleni ond mae'r costau wedi cynyddu 25%
4. Estynnwyd diolch ffurfiol i wirfoddolwyr sydd wedi gweithio ar y prosiect Morfa Madryn – soniwyd bod y llochesau sydd wedi'u trwsio'n welliant gwych.
5. Estynnwyd diolch i'r Dirprwy Faer Laura am ei gwaith yn ystod cyfnod galaru'r Frenhines. Diolch i'r Maer Chris Jones am fynychu'r gwasanaeth eglwys. Cafodd nifer o deyrngedau blodau eu gadael yn yr eglwys ac fe gafodd y digwyddiad ei nodi'n briodol.
6. Mae'r estyll ar y bont ger cefn maes parcio'r banc yn rhydd. Y Clerc i adrodd yn ôl. Swp o ddail i'r chwith o'r bont i fyny'r allt – James i dacluso'r llwybr.
7. Soniwyd bod digwyddiad Ffeirio Dillad Llanfairfechan yn llwyddiant ysgubol gyda dros 80 o bobl yn bresennol a channoedd o ddillad ar gael. Roedd yn waith caled ond byddwn yn trefnu un arall yn ystod y gwanwyn.
8. Mae cloddiad Archeolegol y Carneddau ar lethrau Dinas wedi'i gwblhau erbyn hyn ond bu'n boblogaidd dros ben. Mae llawer o ganfyddiadau wedi'u cofnodi ac mae wedi amlygu arwyddocâd hanesyddol pwysig ein hardal. Mae'n debyg bod y ffatri fwyell hynaf yn y byd yma ac mae'n 6000 mlwydd oed o leiaf. Bu'r safle yn weithredol am dros 2000 o flynyddoedd ac mae'n amlwg bod modd inni ganfod mwy o fanylion mewn prosiectau yn y dyfodol. Roedd oddeutu 20 o wirfoddolwyr cymunedol ym mhob cloddiad a bu i dros 100 o blant ysgol ymweld â'r safle yn ystod y prosiect.
9. Mae disgwyl y bydd y gwaith ger y môr ar hyd y llain arfordirol ar y cob wedi'i gwblhau'n fuan. Mae'r gwaith hwn wedi'i gwblhau gyda chyn lleied o aflonyddwch â phosibl ac mae'r llwybr cerdded wedi'i gadw ar agor.

Daeth y cyfarfod i ben am 9:30yh a bydd y cyfarfod Cyngor Tref nesaf : nos Fercher, Hydref y 27^{ain} am 7yh.